Estyn

Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Hermon
# Canolfan Adnoddau Cymunedol
# Yr Hen Ysgol
# Hermon
# Sir Benfro
# SA37 0DT

**Dyddiad yr arolygiad: 1 Hydref, 2012**

**gan**

**Dorothy Morris**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2012: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 30/10/2012**

## Cyd-destun

Lleolir Cylch Meithrin Hermon mewn ystafell yn y Ganolfan Adnoddau Cymunedol ym mhentref Hermon ger Crymych, Sir Benfro. Ar ôl cwblhau'r rhaglen adeiladu, bydd y lleoliad yn symud i ardal arall yn y ganolfan gyda chyfleusterau ac ardaloedd chwarae allanol newydd.

Sefydlwyd y lleoliad yn 1984 ac mae'r plant sy'n mynychu yn byw yn y pentref a'r ardaloedd cyfagos. Bernir nad yw'r ardal yn freintiedig nag ychwaith o dan anfantais economaidd a chymdeithasol. Yn dilyn eu hamser yn y lleoliad, mae'r plant yn parhau â'u haddysg mewn ysgolion cynradd lleol.

Mae'r lleoliad yn darparu ar gyfer plant dwy i bedair oed am bedair sesiwn yr wythnos yn ystod y tymor ysgol. Mae ar agor rhwng 9:00 a 11:30 o'r gloch. Yn ystod yr arolygiad, yr oedd pum plentyn tair oed ar y gofrestr yn cael eu hariannu gan Bartneriaeth Plant Sir Benfro. Cymraeg yw iaith y cartref i tua hanner y plant. Ar hyn o bryd, nid oes neb o gefndir ethnig lleiafrifol yn mynychu na phlant ag anghenion dysgu ychwanegol.

Caiff y lleoliad ei staffio gan arweinydd amser llawn a thair ymarferwraig rhan amser. Yn ystod yr arolygiad, yr oedd ymarferwraig dros dro yn cyflawni un o'r swyddi rhan amser. Mae'r rhan fwyaf o'r ymarferwyr yn brofiadol ac yn meddu ar gymwysterau priodol ym maes addysg a gofal plant bach. Penodwyd yr arweinydd i'w swydd yn Ionawr 2012 a'r ymarferwyr eraill yn Ebrill 2012.

Cafodd y lleoliad ei arolygiad diwethaf gan Estyn ym mis Tachwedd 2006 a chan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ym Mai 2012.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

**Perfformiad presennol**

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn dda oherwydd:

- mae'r rhan fwyaf o'r plant yn gwneud cynnydd cyson o'u man cychwyn;
- mae gan y rhan fwyaf o'r plant agweddau da at ddysgu ac maent yn cymryd rhan weithredol yn eu dysgu;
- cynigir ystod o weithgareddau diddorol;
- mae'r addysgu'n dda ar y cyfan; ac
- mae'r plant yn cael eu cefnogi'n effeithiol mewn amgylchedd cynhwysol.

**Rhagolygon gwella**

Mae gan y lleoliad ragolygon gwella da oherwydd:

- arweinyddiaeth gydwybodol y prif ymarferydd;
- gwaith tîm da;
- tystiolaeth o ddatblygiad a gwelliant;
- ymrwymiad cadarn y pwyllgor rheoli newydd; a
- defnydd adeiladol o ystod o bartneriaethau sydd yn cefnogi dysgu'r plant.

## Argymhellion

Er mwyn datblygu, mae angen i'r lleoliad:

A1 strwythuro tasgau ymhellach er mwyn ymestyn medrau'r plant, yn arbennig medrau llythrennedd Cymraeg a medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu'r plant hŷn;

A2 addasu trefniadaeth y sesiwn i gynnig gwell cydbwysedd rhwng y gweithgareddau;

A3 ehangu'r cyfleoedd i'r ymarferwyr ddatblygu eu gwybodaeth o gwricwlwm y Cyfnod Sylfaen;

A4 adeiladu ar wybodaeth yr ymarferwyr o brosesau hunan arfarnu a chynllunio gwelliannau;

A5 parhau i ddatblygu rôl y pwyllgor rheoli.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd yr awdurdod lleol yn monitro'r cynnydd.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Amherthnasol |
|---|---|

Nid oes unrhyw adroddiad ar gynnydd plant, safonau yn natblygiad eu medrau, yr iaith Gymraeg a lles. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae'r ymarferwyr yn cynnig ystod o brofiadau i'r plant ar draws y meysydd dysgu. Mae'r cynllunio cyffredinol yn dilyn fframwaith yr awdurdod lleol, ac yn adlewyrchu gofynion cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Mae'r gweithgareddau'n seiliedig ar gyfres o themâu sy'n gweddu i ystod oed y plant. Ceir rhediad esmwyth i drefn y sesiynau. Er hyn, nid oes cydbwysedd digonol rhwng y gweithgareddau gwahanol a ddarperir yn ystod y sesiwn.

Rhoddir sylw priodol i hyrwyddo medrau cyfathrebu, rhif a medrau ehangach y plant trwy'r ddarpariaeth ddyddiol. Caiff gweithgareddau eu paratoi'n fanwl. Nid ydynt wedi'u strwythuro'n ddigonol bob amser, fodd bynnag, i ymestyn medrau'r plant yn arbennig medrau cyfathrebu Cymraeg a medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu'r plant hŷn.

Cymraeg yw cyfrwng naturiol bywyd a gwaith y lleoliad. Caiff y plant gyfleoedd addas i wrando ar storïau, edrych ar lyfrau, sgwrsio, canu caneuon a rhigymau, a defnyddio medrau marcio. Mae'r ymarferwyr yn cyfathrebu'n gyson gyda'r plant yn ystod y gweithgareddau ond nid oes sylw digonol i atgyfnerthu geirfa a phatrymau brawddegol sylfaenol yn rheolaidd.

Cyflwynir y plant i draddodiadau a dathliadau Cymru, gan gynnwys dathlu Dydd Gŵyl Dewi, yn effeithiol. Darperir rhai cyfleoedd iddynt ddysgu am ddiwylliannau a thraddodiadau pobl eraill trwy weithgareddau megis dathlu'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd. Mae'r cyfleoedd i flasu a thrafod bwydydd o wledydd eraill a dysgu am wisgoedd gwahanol yn cyfrannu'n briodol at hyrwyddo eu hymwybyddiaeth o'r byd ehangach.

Mae'r lleoliad yn darparu cyfleoedd addas i'r plant ddysgu am bwysigrwydd gofalu am yr amgylchedd a phob peth byw. Maent yn cynnwys tyfu planhigion a gofalu amdanynt gyda chymorth garddwr lleol, a chymryd rhan mewn gweithgareddau ailgylchu a chompostio.

**Addysgu: Da**

Mae gan yr ymarferwyr wybodaeth ddatblygol o ofynion cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Gwnânt ddefnydd addas o ddulliau addysgu gwahanol ac o adnoddau i arwain a chefnogi'r dysgu. Mae ffocws da ar ddarparu cyfleoedd i'r plant fod yn weithredol yn eu dysgu. Mae'r ymarferwyr yn ymuno'n frwdfrydig yn y gweithgareddau ac yn defnyddio cwestiynau'n gyson i annog y plant i gyfrannu. Maent yn meithrin perthynas waith agos gyda'r plant ac yn defnyddio clod ac anogaeth yn effeithiol.

Mae'r ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda ac yn medru trafod eu datblygiad yn effeithiol. Maent yn arsylwi ar ymateb y plant yn gyson ac yn cofnodi unrhyw ddatblygiadau arwyddocaol. Mae gan y prif ymarferydd afael sicr ar gynnwys y cofnodion ond mae'r defnydd o'r wybodaeth a gesglir ar gyfer cynllunio'r camau nesaf yn y dysgu yn parhau i ddatblygu. Caiff rhieni eu hysbysu am ddatblygiad eu

plant yn briodol trwy drafodaethau anffurfiol ar ddechrau a diwedd sesiynau a thrwy adroddiad ysgrifenedig. Cwblheir ffurflenni trosglwyddo gwybodaeth addas i'r ysgol gynradd berthnasol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae trefniadau effeithiol i gefnogi iechyd a lles y plant. Rhoddir sylw da i hyrwyddo eu dealltwriaeth o bwysigrwydd golchi dwylo, trin offer yn ddiogel ac ymddwyn yn gyfrifol. Mae trefniadau sefydlu'n sicrhau bod plant yn ymgartrefu'n dda yn y lleoliad. Mae'r ymarferwyr yn ofalgar a chynhaliol o'r holl blant.

Mae trefniadau addas ar gyfer cefnogi plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol pan fydd angen, ac mae llinellau cyfathrebu clir gydag asiantaethau allweddol.

Mae gan y lleoliad bolisi priodol a gweithdrefnau ar gyfer diogelu. Mae'r ymarferwyr wedi derbyn hyfforddiant priodol. Ymgymerir ag asesiadau risg yn rheolaidd.

Mae profiadau dysgu yn hyrwyddo datblygiad personol y plant yn gyson, gan gynnwys eu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol. Hyrwyddir gwerthoedd, megis tegwch, caredigrwydd a dealltwriaeth o'r hyn sydd yn gywir a'r hyn sydd yn anghywir, yn effeithiol drwy'r cwricwlwm a'r gweithgareddau dyddiol. Mae'r profiadau, megis cynnig gweddi cyn byrbryd a'r dathliadau diolchgarwch a'r Nadolig, yn ehangu datblygiad ysbrydol y plant.

Gwneir defnydd da o ymweliadau, cyfraniadau ymwelwyr a gweithgareddau yn y gymuned i ymestyn medrau cymdeithasol y plant ac i ddatblygu eu gwybodaeth o'u cymuned. Fel rhan o'r thema bresennol, sef 'pobl sydd yn ein helpu', mae'r plant wedi ymweld â phopty, gorsaf dân a gorsaf yr heddlu, ac wedi derbyn ymweliadau gan nyrs a phostman i drafod eu gwaith.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r lleoliad yn gymuned gynhwysol sydd yn rhoi mynediad cyfartal i bob plentyn i'r cwricwlwm ac i'r holl weithgareddau a ddarperir. Mae'r ymarferwyr yn rhoi ystyriaeth a gwerth i gefndiroedd amrywiol y plant ac yn ymateb yn briodol. Llwyddant i greu amgylchedd cynnes a chyfeillgar i bob plentyn.

Mae gan y lleoliad nifer priodol o ymarferwyr ac mae'r rhan fwyaf yn meddu ar gymwysterau a phrofiad perthnasol. Digonol yw ansawdd yr adeilad a'r cyfleusterau presennol. Gwneir defnydd llawn o'r gofod dysgu sydd ar gael trwy drefnu ardaloedd o weithgareddau amrywiol o amgylch yr ystafell. Gwneir defnydd effeithiol o'r adnoddau sydd ar gael i gefnogi'r dysgu a'r addysgu. Mae'r ystod o adnoddau, mewn mathemateg ac iaith er enghraifft, yn fwy cyfyng. Yn briodol, mae'r elfen hon yn un o dargedau'r cynllun gwella.

Mae'r ardaloedd awyr agored yn cael eu defnyddio'n rheolaidd er mwyn darparu ystod eang o weithgareddau corfforol a chreadigol. Gwneir defnydd addas hefyd o gae chwarae'r pentref, sydd yn cynnwys offer mawr, er mwyn ymestyn medrau'r plant.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

O dan arweiniad cydwybodol y prif ymarferydd, llwyddir i greu ethos cadarnhaol ar gyfer staff, plant a rhieni. Mae'r ymarferwyr yn deall eu rolau ac yn gweithio'n agos fel tîm. Maent yn rhannu gwerthoedd cytûn ynghylch dysgu, ymddygiad a datblygiad plant, ac yn agored i syniadau newydd er mwyn gwella'r ddarpariaeth ymhellach. Caiff polisïau a gweithdrefnau eu rhoi ar waith yn briodol.

Mae'r pwyllgor rheoli newydd yn cynnig cymorth parod i'r lleoliad ac yn ymrwymedig i'w ddatblygiad pellach. Mae'n cyfarfod yn rheolaidd ac yn cadw cofnodion o'r trafodaethau, sydd yn sail i gynllunio pellach. Mae'r aelodau yn datblygu eu gwybodaeth o'u cyfrifoldebau ond mae ei rôl o ran arfarnu'r ddarpariaeth gyffredinol a blaengynllunio yn ei ddyddiau cynnar o ddatblygiad. Mae'r swyddogion yn ymgymryd â'u dyletswyddau yn effeithiol. Mae gan y lleoliad system briodol ar gyfer gwerthuso gwaith yr ymarferwyr.

Mae'r ymarferwyr yn rhoi sylw addas i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol, gan gynnwys gweithredu cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen, hyrwyddo medrau cyfathrebu Cymraeg y plant a datblygu cysylltiadau gyda'r ysgolion cynradd lleol.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae gan y prif ymarferydd wybodaeth briodol o brif gryfderau'r lleoliad ac o rai meysydd i'w gwella. Ers ei phenodi, mae wedi cyflwyno gwelliannau i rai agweddau ar y ddarpariaeth megis creu dogfennaeth angenrheidiol. Mae'r ymarferwyr yn cyd-drafod yn rheolaidd, ond mae eu gwybodaeth o brosesau hunan arfarnu ac o gynllunio mwy strwythuredig yn parhau i ddatblygu. Mae'r broses o gwblhau'r ddogfen hunan arfarnu wedi bod yn brofiad defnyddiol. Mae'r ddogfen yn nodi rhai o gryfderau'r lleoliad ond nid yw yn ymwneud yn ddigon dadansoddol a phob agwedd. Mae'r cynllun gwella yn cynnwys targedau perthnasol, ond prin yw'r manylion.

Caiff agweddau ar y ddarpariaeth eu monitro'n rheolaidd gan athrawon cyswllt yr awdurdod lleol a chytunir ar feysydd addas i gael sylw. Rhoddir strategaethau pwrpasol ar waith sydd yn gwella'r ddarpariaeth. Caiff agweddau ar y ddarpariaeth eu trafod ymhellach gyda swyddog Mudiad Meithrin. Ceisir barn rhieni yn briodol trwy drafod a thrwy holiaduron.

Mae'r ymarferwyr wedi derbyn hyfforddiant ar ddatblygiad a gofal plant ac yn fwy diweddar maent wedi mynychu cyrsiau addas ar gwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Gwnânt ddefnydd priodol o'r hyfforddiant. Mae rhai cyfleoedd iddynt drafod a rhannu syniadau gyda lleoliadau eraill yn lleol ac yn ystod dyddiau hyfforddiant.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan y lleoliad nifer o bartneriaethau strategol sydd yn cyfrannu'n effeithiol at ansawdd y ddarpariaeth a datblygiad plant. Caiff nodau ac amcanion y lleoliad eu rhannu gyda'r partneriaid.

Mae perthynas dda gyda'r rhieni a darperir gwybodaeth berthnasol iddynt drwy'r hysbysfwrdd, cyfarfodydd a chylchlythyron. Mae'r rhieni yn gwerthfawrogi polisi drws agored y lleoliad a'r cyfleoedd dyddiol i gwrdd â'r ymarferwyr.

Mae'r bartneriaeth agos gyda'r pwyllgor rheoli, athrawon cyswllt yr awdurdod lleol a swyddog Mudiad Meithrin yn cynorthwyo'r lleoliad. Mae cyswllt buddiol yn datblygu gyda lleoliad cyfagos o ran cynllunio a rhannu dathliadau megis dathlu'r Jiwbilî yn ddiweddar. Sefydlwyd cysylltiadau adeiladol gyda'r ysgolion cynradd sydd yn hyrwyddo trosglwyddiad esmwyth i'r plant i gam nesaf eu haddysg. Mae'r cysylltiadau gyda'r gymuned leol yn dylanwadu'n effeithiol ar brofiadau dysgu'r plant.

**Rheoli adnoddau: Da**

Caiff adnoddau eu rheoli'n effeithiol. Mae'r lleoliad wedi'i staffio'n addas a gwneir defnydd cadarnhaol o amser a phrofiad yr ymarferwyr. Mae cyflenwad digonol o adnoddau dysgu sylfaenol. Caiff yr adeilad a'r ardaloedd chwarae presennol eu cynnal a'u cadw'n briodol.

Mae gan yr arweinydd a'r trysorydd ddealltwriaeth sicr o'r gyllideb ac mae'r pwyllgor rheoli yn blaenoriaethu gwariant yn ôl anghenion y lleoliad. Gwneir defnydd rheolaidd o ymgyrchoedd codi arian ac o grantiau i ychwanegu at y cyflenwad o adnoddau. Mae'r lleoliad yn cynnig gwerth da am arian.

## Atodiad 1

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i'r holiadur i rieni

Nid oes sylwebaeth ar yr holiaduron rhieni oherwydd y nifer fach o ymatebion a dderbyniwyd.

### Ymateb i drafodaethau gyda phlant

Mae'r plant yn dweud eu bod yn hapus yn y lleoliad a'u bod yn mwynhau chwarae gyda'u ffrindiau.

## Atodiad 2

### Yr arolygydd cofnodol –

| | |
|---|---|
| Dorothy Morris | Arolygydd Cofnodol |

### Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Y Gymdeithas Gwarchod Plant Genedlaethol (NCMA)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.)<br>Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |